

## **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ystafell Briffio'r Cyfryngau

Y Senedd

Dydd Mercher 3 Mai, 12.00 – 2pm

### **Yn bresennol**

Julie Morgan AC – Cadeirydd

Adalaide Purcell – Ysgol West Mon, Torfaen

Amanda Cartwright – Cydraddoldeb a Ffyniant, Llywodraeth Cymru

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Llywodraeth Cymru

Carly Thomas – Ysgol West Mon, Torfaen

Denise Barry – SOVA

Edith England – Sipsiwn a Theithwyr Cymru

Helen Luxton – EMTAS Caerdydd

Helen West – Swyddfa Julie Morgan

Isaac Blake – Cwmni Celf a Diwylliant Romani

John Davies – Cydraddoldeb a Ffyniant, Llywodraeth Cymru

Jon Ross – Ysgol West Mon, Torfaen

Kay Evans – EMTAS Caerdydd

Lillie Bramley – Prosiect Pontydd, Merthyr Mwy Diogel

Lisa Smith – Travellers' Times

Liz Jackson – GEMS

Louise Dunn – GEMS

Mags Richmond – EMTAS Caerdydd

Nancy Cavill – Swyddfa Julie Morgan

Paultina Probert – Ysgol West Mon, Torfaen

Rebecca Preston – Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent

Rhiannon Jones – Teithio Ymlaen, Tros Gynnal Plant

Ricky Price – Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Sir Benfro

Ruby Price – Kingsmoor, Sir Benfro

Sara Reid-Danks – Sipsiwn a Theithwyr Cymru

Sue Morgan – Ysgol West Mon, Torfaen

Tom Tom Hendry – Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Gwent

Trudy Aspinwall – Teithio Ymlaen, Tros Gynnal Plant

### **Ymddiheuriadau**

Andree Morgan Andrews

Sonia Dixon – Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Caerdydd

Beverley Stephens – Cyngor Sir Penfro

Simon Thomas AC

Neil Hamilton AC

### **Julie Morgan**

Croeso a diolch i bawb am ddod i'r cyfarfod. Gofyn i Tom Tom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch adroddiadau'r Grŵp Llywio.

### **Tom Tom Hendry**

Mae'r grŵp trawsbleidiol wedi ymrwymo i gynnal cyfarfodydd ar hyd a lled Cymru - nid yng Nghaerdydd yn unig. Cafwyd un cyfarfod yn Sir Benfro a bydd yn mynd yno eto yn yr haf 2017. Mae digwyddiadau Diwrnod Cofio'r Holocost wedi bod yn llwyddiant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafodd gwaith celf a grëwyd gan Tom Tom ei arddangos yn y Senedd ym mis Ionawr 2017.

### **Julie Morgan**

Awgrymu bod pawb yn cyflwyno'u hunain i Carl Sargeant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

### **Carl Sargeant**

Awyddus iawn i wrando ar Sipsiwn a Theithwyr am faterion a phryderon. Aeth ar ymweliad diweddar â safle Rover Way.

Pynciau a drafodwyd:

- Llety/safleoedd: Wedi gwneud cynnydd mawr. Cyflwynodd Deddf Tai (2014) asesiadau anghenion ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o ran eu hanghenion llety. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau gan awdurdodau lleol er mwyn adeiladu safleoedd yn seiliedig ar angen. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod pob awdurdod lleol yn cynnal asesiadau anghenion – mae ganddynt ddyletswydd gofal i wneud hyn. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n cynnal asesiadau llety. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn cael y cyfle i adeiladu eu safleoedd eu hunain. Dim ond yn angen gwneud cais cynllunio i'r cyngor – mae ymgynghori am ddim ar gael drwy'r cyngor. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn caniatáu i bobl siarad â swyddogion cynllunio. Rhaid bod gan gyngor reswm credadwy pam nad oes modd adeiladu safle. Cedwir at yr holl bolisiâu hyn ar dir Llywodraeth Cymru ac mae'n disgwyl i dir preifat a thir awdurdod lleol gadw at ddeddfau a gweithdrefnau.
- Cydraddoldeb: Un o'r pethau anoddaf i'w gyflawni oherwydd bod cymaint o bobl angen cael cydraddoldeb. Ond mae Cymru wedi gwneud cynnydd mawr ac mae'n sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr wrth wraidd y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae angen i Sipsiwn a Theithwyr sicrhau eu bod yn bwydo i mewn i'r system hefyd.
- Prosiect Undod: tynnwyd cyllid yn ôl ddiwedd mis Ionawr 2017. Roedd gan yr awdurdod lleol y cyfle i wneud cais am Lywodraeth Cymru am gyllid ond ni wnaeth hynny.

Dywedodd Tom Tom fod Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn cael arolygon i'w llenwi heb gael gwybod beth ydynt/pam mae eu hangen ac at ba ddiben y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio. Dim digon o esboniad i aelodau'r gymuned. Mae angen cyfathrebu'n well gyda'r

gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Pwysleisiodd Carl Sargeant fod angen i bobl roi gwybod iddo os oes angen i bethau newid – nid yw'n gwybod os nad yw pobl yn dweud wrtho. Dywedodd Tom Tom hefyd fod awdurdodau lleol yn dod o hyd i unrhyw reswm i Sipsiwn a Theithwyr beidio ag adeiladu ar eu tir.

Awgrymodd Carl Sargeant y dylai'r grŵp trawsbleidiol wahodd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i un o'r cyfarfodydd.

### **Trafodaeth gyffredinol y grŵp**

Mae angen cynnal cyfarfodydd paratoi gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr cyn y cyfarfod llawn nesaf yn Sir Benfro.

Mae angen denu mwy o Aelodau'r Cynulliad i gyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol.

### **Camau gweithredu:**

- Julie i ysgrifennu at Carl Sargeant i roi'r holl wybodaeth iddo am y prosiect Undod fel ei fod yn gallu ysgrifennu at yr awdurdod lleol i wneud ymholiadau.
- Mae angen i aelodau'r grŵp fynd at eu Haelodau Cynulliad lleol i'w hannog i ddod i'r cyfarfodydd.
- Penderfynu ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod yn Sir Benfro (ar ôl 8 Mehefin).

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr yn ddiolchgar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gael defnyddio'i gyfleusterau